# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**PWYLLGOR DEDDFAU ADRODDIAD** DRAFFT

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT** DRAFT

**Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymelliannau i annog mwy o bobl i hyfforddi fel athrawon.

Er bod y Rheoliadau'n diddymu Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 ("Rheoliadau 1999"), yr un yw'r egwyddor y tu ôl i'r Rheoliadau newydd a Rheoliadau 1999. Fel Rheoliadau 1999 maent yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986.

Nid yw'r Rheoliadau newydd wedi'u cyfyngu i feysydd pwnc penodedig (e.e. mathemateg a gwyddoniaeth).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth newydd sy'n caniatáu i grantiau'n gael eu talu'n uniongyrchol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir fel y gallant recriwtio a hyfforddi athrawon graddedig.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan fod Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor wedi cael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y Rheoliadau hyn nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Yn yr un modd cafodd nifer o sylwadau cyffredinol a wnaed gan y Cynghorwyr Cyfreithiol eu hystyried gan ddrafftwyr y rheoliadau hefyd ac mae newidiadau wedi'u gwneud. Dim ond un pwynt mân sydd ar ôl felly.

**Rheoliad 3(3)**

Mae rheoliad 3(3) yn rhoi esboniad ar ystyr y gair “cymwys”. Gan fod y cysyniad hwn yn sylfaenol i'r rheoliadau, gofynnir pam na ddarparwyd ar gyfer hyn wrth ddiffinio “person cymwys”. Er hynny, addefir mai mater o arddull ddrafftio yw hyn ac nid mater o ddilysrwydd drafftio.

*Adroddiad drafft yw hwn wedi'i baratoi i'r Pwyllgor Deddfau ei ystyried.*

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**29 Medi 2000**

Ein cyf: LAD-01-01-132